Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 28 January 2019 at 7.10 pm**

**PRESENT :-** His Worship the Mayor, Councillor John Wynn Jones

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillors :- | Les Day (Chairman) | Ifan James | G O Roberts |
| | J M Martin | Enid Parry | Luke Tugwell |
| | Owen Hurcum | Huw Wyn Jones | |

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

**180/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from The Deputy Mayor, Councillor John Wyn Williams and Councillors D Hainge, Medwyn Hughes, Keith Jones, Colin King, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, Salik Rahman, Mair Rowlands and Elin Walker Jones.

**181/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillors J Wynn Jones and Les Day declared an interest in Item 183/18 Applications for Financial Assistance/Other donations within Budget.

**182/18 SECTION 137 APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE**

The Town Clerk reported on applications that had been received and responded to several questions on the process, funding and details of each of the application.

**RESOLVED :** that the following organisations be granted the sums of :-

a) Y Goriad - £200
b) Clwb Nofio Bangor Swim Club - £150
c) Bangor Saints FC - £200
d) Dawns i Bawb - £200
e) Dog House Kickboxing Fitness Centre - £50

Declarations of interest by Councillor J Wynn Jones who left the Meeting during the discussion and decision on these matters. Councillor Les Day declared an interest in the list of other organisation that had received grants.

**183/18 NORTH &MID WALES ASSOCIATION OF LOCAL COUNCILS**

Councillor John Martin presented a report and feedback from the recent meeting of the Association covering the topics below:-

- Presentation by Travel Wales on the new Rail Franchise and investment to trains and the infrastructure
- School Meals
- Future of Town and Community Councils
- Well being of Future Generations Act
- Member Allowances / Expenses and HMRC/Payroll

**RESOLVED**: that the Report be received.

**184/18 WELL BEING OF FUTURE GENERATIONS ACT 2015**

The Town Clerk submitted a written report explaining the significance of the Local Public Services Board, their Local Well Being Plan and the requirements of the City Council to link its Annual Report to the aims and objectives of the Plan.

**RESOLVED**: that the Town Clerk's report be received and that a draft Annual Report be submitted to a future meeting for comment and approval.

**185/18 PIER UPDATE**

The Town Clerk reported progress at the Pier head and the rapid progress of the repair and refurbishment works. He also reported upon the financial position including figures for budget, commitments, projections and suppliers of goods and services. The current and projected expenditure schedules together with list of payees had been shared with and approved by the Financial Approvers in accordance with Standing Orders.

**RESOLVED**: that the report be received, noted and that the financial position be approved and figures noted.

**186/18 FINANCE**

a) **Invoices for Payment** - It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £3852.07 had been approved.
**RESOLVED** that the payments be noted.

b) **Third Quarter Accounts 2018/19** - The Town Clerk presented the Third Quarter Accounts for information and comment.

**RESOLVED :** the Accounts be received and noted as set out in the report.

**187/18 RISK ASSESSMENT REVIEW & CONTROL OF FINANCIAL SYSTEM**

The Town Clerk presented the above document, which had been circulated.

**RESOLVED** : that the Risk Assessment Review and the Review of Effectiveness of Internal Control System document be received and approved.

**188/18 TOWN CLERK'S FINANCIAL REPORT – BUDGET FOR 2019/2020**

The Town Clerk presented the budget report and responded to questions by Members on the various headings as follows:-

**Review of Council Prices and Charges**

**RESOLVED:-** to approve the prices of Penrhyn Hall hire as indicated in the Town Clerk's Report; rental charges for the Pier Kiosks as set out in the Report; and that the Pier entrance prices should remain the same; and the car park price as indicated in the report;

**Works at the Pier**

Members noted that the capital works had almost reached its completion (phases 1-4) and the allocated budget of £1.3M was likely to be exhausted by April.

The Town Clerk reported that there were two phases untouched and responded to questions as to whether the refurbishment of these phases (5 & 6) could be completed or delayed. The Town Clerk stated that an estimated fund of £360,000 would be required to complete the work based on the costs incurred in an earlier similar phase.

**RESOLVED**: that i) a Special Meeting of the Finance & General Purposes Committee be held on 18 February following Planning Committee to consider this matter and the future of the Pier, also that a Special Council be convened to ratify the decision of the Committee the same night; and ii) a decision on capital allocation as indicated in the budget book (£200,000) be delayed until a decision is arrived at

**Operational Services**
**RESOLVED** that funds be set aside for necessary works as contained in the report and budget schedules.

**Staffing**
It was noted that two seasonal temporary workers would be required to assist with the workload

**RESOLVED** that the Town Clerk assess requirements and be authorised to appoint two seasonal temporary workers in consultation with the Mayor, Deputy Mayor and Chair of the Staffing Panel.

**189/18 ESTIMATES OF INCOME & EXPENDITURE**

The Town Clerk presented the detailed schedule of Estimates for 2019/2020

The Budget was reviewed page by page and the Town Clerk explained the figures set out under the various headings, highlighting the major items of expenditure necessary in the coming financial year.

**RESOLVED** to accept all the recommendations contained in the schedule of Budget Estimates.

**190/18 PRECEPT 2019/2020**

**RESOLVED :** that the recommendations contained in the Schedule of Budget Estimates be approved subject to :-

1) any Capital Expenditure be funded from the Capital Reserve Account;
2) the Capital Reserve of £1.3m already allocated to the Pier Renovation Project be confirmed and ear-marked as such and the Town Clerk continues to inform and report to the City Council's Financial Approvers (in accordance with Financial Regulations) and Members with regard to updates, expenditure and approval of payment;
3) any under-spend from 2018/19 be allocated to General Reserves and new contingency costs; and
4) the Precept for 2019/2020 be £385,216.

The Meeting finished at 8.30pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **nos Lun 28 o Ionawr 2019** am 7.10 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wynn Jones

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr :- | Les Day (Cadeirydd) | Ifan James | G O Roberts |
| | J M Martin | Enid Parry | Luke Tugwell |
| | Owen Hurcum | Huw Wyn Jones | |

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**180/18 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd, John Wyn Williams a'r Cynghorwyr D Hainge, Medwyn Hughes, Keith Jones, Colin King, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, Salik Rahman, Mair Rowlands ac Elin Walker Jones.

**181/18 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr J Wynn Jones a Les Day yn eitem 183/18 Ceisiadau am Roddion Ariannol/rhoddion eraill o fewn y Gyllideb.

**182/18 ADRAN 137 CEISIADAU AM RODDION ARIANNOL**

Adroddodd Clerc y Dref ar y ceisiadau a dderbyniwyd ac atebodd gwestiynau ar y broses, cyllido a manylion pob cais.

**PENDERFYNWYD** rhoi i'r mudiadau canlynol y symiau a ganlyn:-

a) Y Goriad - £200
b) Clwb Nofio Bangor Swim Club -£150
c) Bangor Saints FC - £200
d) Dawns i Bawb - £200
e) Dog House Kickboxing Fitness Centre - £50

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorydd J Wynn Jones a adawodd y Cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y materion hyn. Datganwyd diddordeb gan y Cynghorydd Les Day yn y rhestr o fudiadau eraill a oedd wedi derbyn grantiau.

**183/18 CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd John Martin adroddiad ac adborth o gyfarfod diweddar y Gymdeithas oedd yn ymdrin â'r pynciau isod:-

- Cyflwyniad gan Teithio Cymru ar y Fasnachfraint Rheilffyrdd newydd a'r buddsoddiad mewn trenau ac isadeiledd
- Prydau Ysgol
- Dyfodol Cynghorau Tref a Chymuned
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Lwfansau Aelodau / Treuliau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi / y Gyflogres

**PENDERFYNWYD**: derbyn yr Adroddiad.

**184/18 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015**

Cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad ysgrifenedig yn esbonio arwyddocâd y Bwrdd Gwasanaethu Cyhoeddus Lleol, eu Cynllun Llesiant a'r gofynion ar i Gyngor y Ddinas gysylltu ei Adroddiad Blynyddol â nodau ac amcanion y Cynllun.

**PENDERFYNWYD**: derbyn adroddiad Clerc y Dref a gofyn iddo gyflwyno Adroddiad Blynyddol drafft i gyfarfod yn y dyfodol i gael sylwadau a chymeradwyaeth.

**185/18 DIWEDDARIAD Y PIER**

Adroddodd Clerc y Dref ar y cynnydd ar ben draw'r Pier a dywedodd fod y gwaith trwsio ac adnewyddu yn mynd rhagddo yn gyflym. Adroddodd hefyd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys y ffigyrau i'r gyllideb, ymrwymiadau, amcanestyniadau a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. Roedd y rhestri gwariant cyfredol a'r rhai amcanestynedig ynghyd â rhestr y rhai i'w talu wedi cael eu rhannu gyda'r Cymeradwywyr Ariannol ac wedi derbyn eu cymeradwyaeth, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

**PENDERFYNWYD**: derbyn a nodi'r adroddiad, a chymeradwyo'r sefyllfa ariannol a nodi'r ffigyrau.

**186/18 CYLLID**

a) **Anfonebau i'w Talu -** Nodwyd cymeradwyaeth i'r anfonebau fel y manylir arnynt yn y rhestr yn dod i gyfanswm o £3852.07 **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

b) **Cyfrifon Trydydd Chwarter 2018/19** Cyflwynodd Clerc y Dref gyfrifon y trydydd chwarter er gwybodaeth ac i dderbyn sylwadau.

**187/18 ADOLYGIAD ASESIAD RISG A RHEOLI SYSTEM CYLLID**

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod, a oedd wedi'i dosbarthu'n barod.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo'r Adolygiad Asesiad Risg ac Adolygiad Effeithiolrwydd y System Rheolaeth Fewnol.

**188/18 ADRODDIAD CYLLID CLERC Y DREF – CYLLIDEB 2019/2020**

Cyflwynodd Clerc y Dref yr adroddiad cyllideb ac atebodd gwestiynau gan yr Aelodau ar yr amrywiol benawdau fel a ganlyn :-

**Adolygiad o Brisiau a Ffioedd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD** :- cymeradwyo prisiau Neuadd y Penrhyn fel ag y dangosir yn Adroddiad Clerc y Dref; rhent blynyddol Ciosgau'r Pier fel ag y'u gosodwyd allan yn yr Adroddiad; y dylai prisiau mynediad i'r Pier aros yr un fath, a phris y maes parcio fel ag y nodir yn yr adroddiad.

**Gwaith Cyfalaf ar y Pier**

Nododd yr Aelodau fod y gwaith cyfalaf bron â dod i'w derfyn (gweddau 1-4) ac y byddai'r gyllideb a ddyrannwyd o £1.3M yn debygol o ddod i ben erbyn mis Ebrill.

Adroddodd Clerc y Dref fod dwy wedd heb eu cychwyn ac ymatebodd i gwestiynau ynghylch a fyddai adnewyddu'r gweddau hyn (5 a 6) yn cael eu cwblhau neu eu gohirio. Dywedodd Clerc y Dref y byddai angen cronfa dybiedig o £360,000 i gwblhau'r gwaith yn seiliedig ar y costau a wynebwyd mewn gwedd debyg ynghynt.

**PENDERFYNWYD** (i) galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol ar 18 Chwefror yn dilyn y Pwyllgor Cynllunio i ystyried y mater hwn a dyfodol y Pier, hefyd galw Cyngor Arbennig i gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor ar yr un noson; a ii) dod i benderfyniad ar y dyraniad cyfalaf fel ag y'i nodwyd yn llyfr y gyllideb (£200,000 i'w ohirio hyd nes y gwneir penderfyniad)

**Gwasanaethau Gweithredol**
**PENDERFYNWYD** rhoi arian o'r neilltu at gyfer y gwaith angenrheidiol fel y gwelir yn yr adroddiad a'r gyllideb.

**Staffio**
Nodwyd y byddai angen dau weithiwr tymhorol dros dro i helpu â'r llwyth gwaith.

**PENDERFYNWYD** fod Clerc y Dref yn asesu'r gofynion ac yn cael ei awdurdodi i benodi dau weithiwr tymhorol dros dro mewn ymgynghoriad â'r Maer, y Dirprwy Faer a Chadeirydd y Panel Staffio.

**189/18 AMCANGYFRIF INCWM A GWARIANT**

Cyflwynodd Clerc y Dref y rhestr fanwl o Amcangyfrifon ar gyfer 2019/2020.

Adolygwyd y Gyllideb fesul tudalen ac eglurodd Clerc y Dref y ffigyrau a oedd wedi'u gosod o dan yr amrywiol benawdau, gan dynnu sylw at y prif eitemau o wariant a oedd eu hangen yn y flwyddyn ariannol sy'n dod.

**PENDERFYNWYD** derbyn pob un o'r argymhellion yn y rhestr o Amcangyfrifon y Gyllideb.

**190/18 PRAESEPT 2019/20**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion yn y Rhestr o Amcangyfrifon y Gyllideb yn amodol ar y canlynol:-

1) fod unrhyw Wariant Cyfalaf yn dod o'r Cyfrif Cyfalaf Wrth Gefn;
2) fod y Gronfa Gyfalaf o £1.3m a neilltuwyd yn barod i Brosiect Adfer y Pier yn cael ei gadarnhau a'i glustnodi ar gyfer hynny a bod Clerc y Dref yn parhau i hysbysu ac adrodd yn ôl wrth Gymeradwywyr Ariannol Cyngor y Ddinas (yn unol â'r Rheoliadau Ariannol) a'r Aelodau o ran diweddariadau, gwariant a chymeradwyo taliadau;
3) fod unrhyw danwariant o 2018/19 yn cael ei neilltuo i'r Gronfa Gyffredinol a chostau wrth gefn newydd; ac
4) mai'r Praesept ar gyfer 2019/2020 fyddai £385,216.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm